Taflen Wybodaeth

Gwirfoddoli dros Sir Benfro
Volunteering for Pembrokeshire

Beth yw Pasbortau Gwirfoddolwyr?

Cwestiynau Cyffredin ar gyfer Mudiadau sy'n Cynnwys Gwirfoddolwyr

Funded by UK Government
Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU

Pasbortau Gwirfoddolwyr: Cwestiynau Cyffredin

Mae'r daflen wybodaeth hon yn rhoi cyflwyniad i rai o'r cwestiynau allweddol a wynebir yn aml wrth archwilio Pasbortau Gwirfoddolwyr. I'r rhai sy'n dymuno mynd ymhellach, mae PAVS yn darparu Canllaw i Basbortau Gwirfoddolwyr manylach - adnodd hunanwasanaeth sy'n eich helpu i fireinio'ch anghenion a chanfod y dull sydd orau gennych.

Beth yw Pasbortau Gwirfoddolwyr?

Nid oes un model neu ddiffiniad penodol. Mae Mudiadau sy'n Cynnwys Gwirfoddolwyr (VIO) yn eu datblygu am lawer o resymau, er eu bod i gyd wedi'u seilio ar gyfres o **gytundebau cydgysylltiedig, systemau a rennir** a **seilwaith** sy'n ceisio gwella:

- **Hygludedd Gwirfoddolwyr** - y gallu i symud yn gyflym ac yn hawdd rhwng gweithgareddau, neu'r mudiadau sy'n eu cynnal; a/neu
- **Dilysiant Gwirfoddolwyr** - yn dangos yr hyn y mae'r gwirfoddolwr wedi'i gyflawni, i'r rheini y tu mewn neu'r tu allan i'ch 'ecosystem' gwirfoddoli.

Hygludedd? Dilysiant? Neu'r ddau?

Mae pasbortau sy'n canolbwyntio ar hygludedd yn ymwneud â gwella'r systemau sy'n sail i wirfoddoli, cyd-gysylltu'r gwahanol gamau o siwrnai gwirfoddolwyr i wella effeithlonrwydd neu ansawdd, neu wella profiad 'cwsmer' i wirfoddolwyr.

Mewn cyferbyniad, mae mathau dilysiant wedi'u seilio ar y pasbort ei hun - cofnod ffisegol neu ddigidol y gwirfoddolwr o'i hunaniaeth a'i gymwysterau. Mae gwirfoddolwyr yn caniatáu mynediad at VIO i gyflymu eu ceisiadau, neu i gael eu cofnodion wedi'u gwirio a'u cadarnhau.

Pam mae Mudiadau sy'n Cynnwys Gwirfoddolwyr yn ystyried pasbortau?

Mae'n gyfnod heriol i recriwtio a chadw gwirfoddolwyr ac, er nad yw pasbortau yn cynnig ateb i bob problem, gallant helpu i **ddatblygu rhaglen wirfoddoli**, **ei gwneud yn fwy effeithlon** neu **wella'r profiad i wirfoddolwyr** mewn modd cadarnhaol. Maent yn ddefnyddiol i archwilio a ydych am gydweithio â mudiadau o'r un anian yn y meysydd hyn.

Pa fath o basbort sydd orau ar gyfer eich rhaglen wirfoddoli?

Er bod rhai yn anelu at fodloni amcanion **hygludedd** a **dilysiant**, gall canfod a ydych yn cael eich denu at y naill neu'r llall fod yn ddefnyddiol wrth nodi eich mannau cychwyn gorau. Os nad yw hyn yn helpu, ystyriwch yn hytrach a yw eich nodau'n canolbwyntio'n fwy ar wella eich **systemau** eich hun neu wella **profiad** gwirfoddolwyr.

Fel y gwelwn isod, mae'r ddau sbectrwm hyn (hygludedd/dilysiant a phrofiad/systemau) yn dechrau awgrymu gwahanol fodelau o basbort y gallech eu harchwilio - pedwar 'achos defnydd' gwahanol ond eithaf cyffredin ar gyfer pasbort gwirfoddolwyr.



Er enghraifft, mae **pasbortau sydd wedi'u hanelu'n fwy at hygludedd a systemau** (chwith uchaf) mewn sefyllfa dda i gefnogi modelau ymateb brys neu 'ymchwydd' i baratoi gwirfoddolwyr, fel y gwelwyd yn ystod COVID-19.

Mae lleoli cyflym yn nod allweddol yma, gydag ansawdd a chysondeb yn cael eu cynnal trwy ystod o safonau a rennir.

Mewn cyferbyniad, byddai pasbort sy'n ymwneud yn fwy â **phrofiad y gwirfoddolwr a dilysiant** (gwaelod ar y dde) yn fwy addas i'r rhai sy'n defnyddio gwirfoddoli i wella nodau personol neu yrfa. Yma gwelwn lai o safonau cyffredin neu benodol (megis cwricwlwm hyfforddi neu broses archwilio cefndir) – mae'r pwyslais ar hygyrchedd a rhoi gwaith i'r gwirfoddolwr.

Nid y pedwar model hwn yw'r unig fath o basbort o bell ffordd. Mae rhagor o wybodaeth wedi'i chynnwys yn y Canllaw llawn, gydag awgrymiadau ar sut i fireinio eich dull.

Beth sy'n rhan o Basbort?

Mae ymchwil cenedlaethol yn dweud wrthym fod pob math o basbort wedi'i greu o gyfuniad o saith elfen graidd - ond cofiwch nad oes angen pob un o'r saith ar gyfer pob math o basbort.

1. **'Ffederasiynau ymddiriedaeth' -** cytundebau partneriaeth cydweithredol sy'n ymdrin â sut rydych chi a'ch partneriaid yn bwriadu gweithio gyda'ch gilydd
2. **Safonau a rennir -** cytundebau sy'n ymwneud â'ch sicrwydd ansawdd - sut y byddwch ar y cyd yn archwilio cefndir neu'n hyfforddi gwirfoddolwyr, yn rheoli llywodraethu neu ddiogelu data
3. **Cronfa ar y cyd o wirfoddolwyr –** grŵp penodol o unigolion yr hoffech ymgysylltu â nhw (boed yn gwirfoddoli ar hyn o bryd ai peidio)
4. **Atebion broceriaeth a rennir -** offer neu systemau i gyfeirio gwirfoddolwyr at y cyfleoedd mwyaf priodol, eu paru, neu eu helpu i ddewis eu hunain
5. **Proffil neu 'bortffolio' -** 'pasbort' y gwirfoddolwr neu gofnod o'i gyfraniadau a'i gyflawniadau, yn ddigidol yn aml gydag opsiynau mynediad ar gyfer partneriaid
6. **Llwybrau i ddilysu'r hyn mae gwirfoddolwyr wedi'i ddysgu** - offer i wirio hyfforddiant a rhoi ardystiadau swyddogol, wedi'u cofnodi yn y pasbort
7. **Cynlluniau gwobrwyo –** systemau ychwanegol yn darparu cymhellion a manteision, yn gysylltiedig â gwirfoddoli.

Adeiladu eich jig-so

Yn dibynnu ar eich achos defnydd dewisol, gellir trefnu'r elfennau mwyaf dymunol neu ddefnyddiol mewn gwahanol gyfuniadau, yn debyg i jig-so.

Yn y diagram hwn, fe welwn sut y gellir cydosod pob un o'r saith elfen i system basbort gynhwysfawr. Sylwch sut mae rhai elfennau'n gwasanaethu'r swyddogaeth hygludedd, tra bod eraill wedi'u hanelu'n fwy at amcanion dilysiant.



Beth am yr elfen ddigidol?

Pa bynnag fodel y byddwch yn penderfynu ei archwilio, mae'n debygol y bydd angen rhai elfennau o seilwaith digidol arnoch, sy'n sail i ymarferoldeb eich jig-so. Dyma restr o elfennau cyffredin a geir mewn 'pentwr' digidol pasbort gwirfoddolwyr nodweddiadol:

1. Meddalwedd dilysu hunaniaeth

Mae'n galluogi'r gwirfoddolwr i 'wirio' ei hunaniaeth yn ffurfiol, fel arfer drwy uwchlwytho dogfennau swyddogol, fel pasbort neu drwydded yrru.

2. Integreiddio gwiriad DBS

Gall opsiynau amrywio o'r gallu i gynnwys tystysgrif DBS bresennol ym mhroffil y gwirfoddolwr, i rywbeth mwy integredig â'r cam gwirio.

3. Porth ymgeisio

Y 'drws ffrynt' digidol y mae gwirfoddolwyr yn gwneud cais drwyddo. Mae'n bosib bod gennych chi'ch hoff lwyfan eich hun ar gyfer hyn eisoes, gyda phosibiliadau i'w integreiddio â systemau eraill sy'n gwasanaethu gwahanol gamau o siwrnai'r gwirfoddolwr.

4. Integreiddio gyda'ch meddalwedd rheoli gwirfoddolwyr eich hun

Siaradwch â phwy bynnag sy'n darparu eich meddalwedd i archwilio'r potensial i integreiddio hyn â'ch systemau pasbort.

5. Integreiddiadau ehangach

Unrhyw systemau neu lwyfannau allanol eraill yr hoffech chi gysylltu eich pasbort â nhw, fel llwyfannau hyfforddi ar-lein neu gynlluniau gwobrwyo a chydnabod.

Camau nesaf

Erbyn hyn, efallai bod gennych ymwybyddiaeth dda eisoes o rai o nodweddion allweddol pasbortau a allai ddiwallu eich anghenion orau. Cyn mynd ymhellach, ystyriwch y cwestiynau canlynol:

1. **A oes gennych achos defnydd sylfaenol, neu ystod o amcanion mewn golwg?** A yw eich pasbort yn ymwneud yn fwy â hygludedd neu ddilysiant? Effeithlonrwydd neu brofiad? Neu gyfuniad?

2. **Beth sy'n clymu'ch cynulleidfa wirfoddol at ei gilydd?** Mae ymchwil yn awgrymu bod cyffredinedd yn ffactor llwyddiant allweddol, gan ei gwneud hi'n haws cynllunio siwrnai gwirfoddolwyr sy'n addas i bawb. Gallai hyn fod yn ddaearyddiaeth gyffredin (gan

wneud balchder lleol yn sbardun allweddol i wirfoddolwyr), demograffeg (megis oedran) neu hunaniaeth (diwylliannol efallai, cyflwr iechyd, neu rywbeth tebyg).

3. **A yw eich holl bartneriaid a rhanddeiliaid o blaid hyn?** Fel cyffredinedd yn y grŵp gwirfoddolwyr, mae llawer o lwyddiant pasbort yn dibynnu hefyd ar ymddiriedaeth a dealltwriaeth rhwng ei bartneriaid. Rhowch ddigon o amser i feithrin cydsyniad, gan sicrhau bod gennych ymrwymiad a bod eich cynlluniau'n addas at y diben.

4. **A oes arnoch angen brocer neu weinyddwr niwtral?** Yn aml, gall rôl gyffredin i Gynghorau Gwasanaeth Gwirfoddol neu Ganolfannau Gwirfoddoli mewn pasbortau ardal, sef cael partner nad yw'n ymgysylltu â'r gwirfoddolwyr eu hunain, ond sy'n rheoli rhyw agwedd ar y system basbort, fod yn ddefnyddiol o ran sicrhau ansawdd a chysondeb mewn ceisiadau, broceriaeth, neu gymorth arall i wirfoddolwyr yn y camau cynnar.

5. **A oes gan eich pasbort hygrededd?** Mae system ond yn gweithio os yw pobl am ei defnyddio - ac mae hynny'n golygu gwirfoddolwyr a'r rhai sy'n gweinyddu'r system. Ystyriwch rôl ac amlygrwydd partneriaid allweddol, arianwyr a rhanddeiliaid eraill ym mrand a hunaniaeth weledol eich pasbort.

6. **Pa elfennau neu 'ddarnau jig-so' sy'n gwasanaethu eich amcanion orau?** A pha fath o bentwr digidol sydd ei angen arnoch chi i'w cefnogi? Mae'n well meddwl am yr elfennau digidol sydd orau gennych unwaith y bydd gennych gynllun craidd mewn golwg. Mae creu pasbort o amgylch posibiliadau digidol yn arwain rhai at ddewis opsiynau nad oes eu hangen arnynt mewn gwirionedd, gan fabwysiadu technolegau newydd dim ond oherwydd eu bod yn newydd neu'n boblogaidd gydag eraill.

7. **Yn olaf, ceisiwch gadw'ch cynllun a'ch dewisiadau'n syml.** Cymhlethdod yw gelyn pasbortau gwirfoddolwyr - mae llawer o Fudiadau sy'n Cynnwys Gwirfoddolwyr yn llwytho disgwyliadau lluosog arnynt, gan wanhau eu ffocws a drysu'r cynllun. Mae'n aml yn synhwyrol dechrau gyda'ch anghenion mwyaf sylfaenol (eich 'cynnyrch sylfaenol hyfyw') ac ychwanegu mwy o elfennau dros amser.

Darllenwch y Canllaw i Basbortau Gwirfoddolwyr llawn am ragor o wybodaeth ac arweiniad.

Cymorth ychwanegol

- Gall y Ganolfan Wirfoddoli, sydd wedi'i lleoli yn PAVS eich cynorthwyo gydag ystod eang o bolisïau, dogfennau a gwasanaethau enghreifftiol i'ch helpu i hysbysebu, recriwtio, rheoli a dathlu gwirfoddolwyr. Os ydych y tu allan i Sir Benfro, dewch o hyd i'ch Canolfan Gwirfoddoli agosaf yma
- Mae gan Hwb Gwybodaeth Cefnogi Trydydd Sector Cymru adnoddau rhad ac am ddim, sydd wedi'u cynllunio i'ch helpu i gael yr wybodaeth ddiweddaraf, gwella'ch gwybodaeth a chysylltu ag eraill
- Mae Cymorth Gwirfoddoli Gorllewin Morgannwg yn helpu mudiadau sydd â diddordeb mewn cynnwys gwirfoddolwyr trwy ystod eang o adnoddau a gwasanaethau cymorth

Cydnabyddiaethau

Comisiynwyd y Daflen Wybodaeth hon gan PAVS (Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro) ac fe'i hariannwyd gan Lywodraeth y DU, drwy Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU.

Funded by
UK Government
Wedi ei ariannu gan
Llywodraeth y DU

Paratowyd y Daflen Wybodaeth (a'r Canllaw llawn) gan Gethyn Williams, ymgynghorydd annibynnol yn y DU sy'n arbenigo mewn strategaethau gwirfoddoli, ddiwedd 2024 a dechrau 2025.

+GETHYNWILLIAMS
VOLUNTEERING STRATEGY

gethynwilliams.net